Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhentu-cartrefi-rhestr-wirio-i-landlordiaid-thenantiaid-html** (https://llyw.cymru/rhentu-cartrefi-rhestr-wirio-i-landlordiaid-thenantiaid-html) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint** (https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

CANLLAWIAU

# Rhentu Cartrefi: rhestr wirio i landlordiaid a thenantiaid

Y gofynion a’r dyddiadau ar gyfer landlordiaid a thenantiaid newydd (deiliaid contractau) o 1 Rhagfyr

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 2 Tachwedd 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Tachwedd 2022

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yw'r newid mwyaf mewn cyfraith tai yng Nghymru ers degawdau.

Bydd y gyfraith newydd yn dod i rym o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen. Bydd yn gwella sut rydym yn rhentu, yn rheoli, ac yn byw mewn cartrefi rhent yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch beth mae'r newid yn y gyfraith yn ei olygu, rydym eisoes wedi darparu dogfennau canllaw cyffredinol i **landlordiaid** (https://llyw.cymru/landlordiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi) a **thenantiaid** (https://llyw.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi) (a elwir yn ddeiliaid contract o dan y Ddeddf newydd), gan gynnwys fersiwn **hawdd ei deall** (https://llyw.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi) o'r ddogfen ganllaw gyffredinol i denantiaid a thudalen cwestiynau cyffredinol ychwanegol i **landlordiaid** (https://llyw.cymru/rhentu-cartrefi-cwestiynau-cyffredin-landlordiaid) a **thenantiaid** (https://llyw.cymru/rhentu-cartrefi-cwestiynau-cyffredin-tenantiaid). Dylid darllen y dogfennau hyn gyda'i gilydd a byddant yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnoch.

Mae'r tabl isod yn darparu rhestr wirio ddefnyddiol o'r pethau mae'n rhaid i landlordiaid eu gwneud i gydymffurfio â'r gyfraith newydd a phresennol, a'r dyddiadau pwysig ar gyfer gwneud y pethau hynny. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dolenni uchod.

## Rhestr wirio i landlordiaid a thenantiaid

| Gofyniad | Darpariaeth Statudol | Gofyniad ar gyfer contractau newydd o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen | Gofyniad ar gyfer contractau wedi’u trosi (cytundebau yn eu lle cyn 1 Rhagfyr 2022) |
| --- | --- | --- | --- |
| Darparu **datganiad ysgrifenedig o gontract meddiannaeth** (https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-enghreifftiol-ar-gyfer-contractau-diogel) i ddeiliad y contract | Adran 31 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | O fewn 14 diwrnod i’r dyddiad meddiannu (sef y dyddiad y gall deiliad y contract symud i mewn i’r annedd). | Erbyn 31 Mai 2023.<br><br>Fodd bynnag, byddai'n arfer da darparu'r datganiad ysgrifenedig yn gynt. |
| Dylid rhoi hysbysiad o **wybodaeth am y landlord** (neu asiant) i ddeiliad y contract – **ffurflen RHW2** (https://llyw.cymru/hysbysiad-o-gyfeiriad-y-landlord-ffurflen-rhw2) | Adrannau 39 i 40 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | O fewn 14 diwrnod i’r dyddiad meddiannu. | Erbyn 31 Mai 2023.<br><br>Fodd bynnag, byddai'n arfer da darparu'r wybodaeth yn gynt. |
| Darparu copi dilys o **dystysgrif perfformiad ynni** (https://www.gov.uk/buy-sell-your-home/ | Adran 6, Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a | Marchnata eiddo i’w osod, a darparu copi i ddeiliad y contract ar ddechrau’r | Lle bo angen, dylai hyn fod wedi cael ei ddarparu ar ddechrau'r |

| Gofyniad | Darpariaeth Statudol | Gofyniad ar gyfer contractau newydd o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen | Gofyniad ar gyfer contractau wedi'u trosi (cytundebau yn eu lle cyn 1 Rhagfyr 2022) |
|---|---|---|---|
| energy-performance-certificates) ar gyfer yr annedd i ddeiliad y contract | Lloegr) 2012 | contract. | denantiaeth sy'n cael ei throsi. Nid oes angen ailddarparu'r dystysgrif perfformiad ynni yn sgil trosi'r denantiaeth. |
| Darparu gwybodaeth am **flaendal cadw** i ddarpar ddeiliad y contract (darparu hawl cynnig cyntaf tra cynhelir gwiriadau ar annedd). | Atodlen 2, Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) Cymru 2019 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019 | Darparu gwybodaeth cyn talu blaendal cadw. Ad-dalu'r blaendal cadw 15 diwrnod wedi iddo gael ei dalu, fel arfer. | Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol bresennol y dylai'r landlord fod wedi cydymffurfio â hi eisoes. Nid oes angen ailddarparu'r wybodaeth. |
| **Diogelu blaendaliad** mewn cynllun blaendalu awdurdodedig – a darparu gwybodaeth i ddeiliad y contract | Adran 45 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022 | O fewn 30 diwrnod i ddeiliad y contract dalu'r blaendal | Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol bresennol y dylai'r landlord fod wedi cydymffurfio â hi eisoes. Does dim angen ail-ddiogelu'r blaendal. |

| **Gofyniad** | **Darpariaeth Statudol** | **Gofyniad ar gyfer contractau newydd o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen** | **Gofyniad ar gyfer contractau wedi'u trosi (cytundebau yn eu lle cyn 1 Rhagfyr 2022)** |
|---|---|---|---|
| Annedd yn bodloni safonau ar **Ffitrwydd i fod yn Gartref (FFHH)** (https://llyw.cymru/canllawiau-i-i-denantiaid-deiliaid-contract-ar-ffitrwydd-i-fod-yn-gartref) | Adran 91 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd i fod yn Gartref) (Cymru) 2022 | Mae'r annedd yn bodloni safonau FFHH o'r dyddiad meddiannu.<br><br>Mae hyn yn cynnwys presenoldeb larymau mwg wedi'u weiro i'r prif gyflenwad, larymau carbon monocsid lle bo angen ac Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (ECR) | Mae'r annedd yn bodloni safonau FFHH o ddyddiad trosi'r denantiaeth.<br><br>Mae hyn yn cynnwys larymau carbon monocsid lle bo angen.<br><br>Mae gan landlordiaid ddeuddeg mis, tan 30 Tachwedd 2023, i osod larwm neu larymau mwg wedi'i weiro i'r prif gyflenwad a sicrhau bod ECR yn cael ei ddarparu ar gyfer yr annedd. |
| Darparu copi o **Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (ECR)** dilys i ddeiliad y contract | Rheoliad 6, Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd i fod yn Gartref) (Cymru) 2022 | O fewn 14 diwrnod i'r dyddiad meddiannu (ac o fewn 14 diwrnod i archwiliadau cyflwr gosodiadau trydanol | O fewn 14 diwrnod i 30 Tachwedd 2023 |

| Gofyniad | Darpariaeth Statudol | Gofyniad ar gyfer contractau newydd o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen | Gofyniad ar gyfer contractau wedi'u trosi (cytundebau yn eu lle cyn 1 Rhagfyr 2022) |
|---|---|---|---|
| | | dilynol) | |
| Darparu copi o **Dystysgrif Diogelwch Nwy** ddilys i ddeiliad y contract | Rheoliad 36, Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 | Cyn meddiannaeth (a thystysgrifau blynyddol dilynol o fewn 28 diwrnod i archwiliadau) | Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol bresennol y dylai'r landlord fod wedi cydymffurfio a hi eisoes. Nid oes angen ailddarparu'r Dystysgrif Diogelwch Nwy yn sgil trosi'r denantiaeth. |

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.